



Site Stakeholder Group  
Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

**SAFLE TRAWSFYNYDD**  
**COFNODION PEDWERYDD CYFARFOD AR BYMTHEG Y GRŴP RHANDDEILIAID**  
**SAFLE**  
**A GYNHALIWYD YN Y GANOLFAN GYNADLEDDA A CHYNEFINO**  
**DDYDD LLUN 10 MEHEFIN 2013**

**PRESENNOL**

Cyng J Isgoed Williams

Cadeirydd

**Safle Trawsfynydd**

Mr Dave R Wilson

Cyfarwyddwr y Safle

Mr Ian Edwards

Magnox

Ms Christina Black

Magnox

Mr Brian Hughes

Magnox

Ms Aimee Kentish

Magnox

Ms Pippa Waterman

Magnox

Mr Brian Hughes

Magnox

Mr Robin Phillips

Magnox

Mr Bryan Halsey

Magnox

Mr Richard Cowell

Magnox

Mr Bryan Walley

Magnox

**Safle Maentwrog**

Mr Andy McAteer

Magnox

**Undebau**

Mr Rory Trappe

Prospect

Mr Raymond Parry

Unite

Mr Paul Richardson

Prospect

**Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear**

Mr David Edwards

**Horizon Nuclear Power**

Mr Richard Foxhall

**Cyngor Gwynedd**

Cyng Thomas Ellis

Ms Nia Swann Bowden

Parth Menter Eryri

Mr Iwan Morris

Parth Menter Eryri

**Cynghorau Tref a Chymuned**

Cyng John Richards

Cyngor Cymuned Talsarnau

Cyng D Meredydd Williams

Cyngor Cymuned Maentwrog

**Mudiadau a Grwpiau Cymunedol**

Mr Idwal Williams

Traws-Newid

Dr Iolo ap Gwynn

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyng Caerwyn Roberts

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mr Keith O'Brien

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

### **Arsyllwyr**

Mr Elfyn Llwyd	Aelod Seneddol
Mr John Morgan	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Mr Osian Roberts	Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
Mr E Jones	Undeb Amaethwyr Cymru
Mr Alan Staniforth	UK Nuclear Restoration
Ms Gemma Roberts	Dŵr Cymru
Mr Daniel Gregory	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Mr Gwynfor Owen	Cyfieithu
Miss Elen Williams	Cofnodion

### 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dr John Idris Jones	Parth Menter Eryri
Mrs Gwen Pettifor	Sefydliad y Merched
Mr Terry Williams	Cwmni Seren Ffestiniog Cyf
Mr Gwyn Lewis	Prysor Angling
Mrs Shirley Hughes	Cyngor Gwynedd
Mr Dafydd Jarrett	NFU Cymru
Mr Aled Sturkey	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd bod Aled Sturkey wedi ymddeol ac na fyddai'n bresennol yng nghyfarfodydd y grŵp o hyn ymlaen, ond roedd yn dymuno'n dda i'r grŵp ar gyfer y dyfodol. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i Aled Sturkey am ei gyfraniad i'r grŵp. Roedd y Cadeirydd hefyd yn dymuno croesawu ambell wyneb newydd i'r cyfarfod, gan gynnwys Brian Hughes, Cyfarwyddwr Canolfan Ganolog (Hub) Magnox, Pippa Waterman, Swyddog Cyfathrebu'r Ganolfan Ganolog, Aimee Kentish, Rheolwr Cyfathrebu Magnox, a Daniel Gregory o'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch. Yn ogystal â hyn, croesawodd Alan Staniforth o UK Nuclear Restoration (Partneriaeth AMEC/Atkins) fel arsyllwr.

### 2. Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2012

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir gan Idwal Williams, ac roedd gweddill yr aelodau'n cytuno.

### 3. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2012

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

### 4. Anerchiad y Cadeirydd

- 4.1 Mynegodd y Cadeirydd fod y chwe mis diwethaf wedi bod yn eithaf prysur.
- 4.2 Roedd Panel Grantiau Magnox wedi cyfarfod bob mis ac wedi bod yn garedig wrth amryw o gymdeithasau.
- 4.3 Ar 8<sup>fed</sup> Mawrth, roedd aelod o staff cyfathrebu o Berkley (Mr Mark Chevis) wedi dod i weld y gwaith sylweddol o amgylch y bibell ym Maentwrog. Roedd y Cadeirydd yn bersonol wedi dweud y byddai'n well peidio â phlannu llawer o goed o amgylch y bibell yn y dyfodol oherwydd byddai'r un broblem yn codi eto.
- 4.4 Ar 16<sup>eg</sup> Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod ar y safle i drafod materion penodol.



- 4.5 Ar 18<sup>fed</sup> Ebrill, roedd yr NDA wedi galw cyfarfod yn Llandudno i gadarnhau pwy oedd wedi cyrraedd y rhestr fer i redeg deuddeg safle Magnox. Yr enwau a gyhoeddwyd oedd Reactor Site Solutions (Bechtel, EnergySolutions); Partneriaeth Babcock Fluor; Partneriaeth CAS Restoration (CH2M Hill, Areva, Serco); a UK Nuclear Restoration Ltd (AMEC/Atkins). Bydd y cwmni sy'n cael y contract yn gweithredu fel y Rhiant Gorff, ac mae'n debygol y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud o gwmpas mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Roedd yn ddiwrnod hir ond buddiol.
- 4.6 Ar 7<sup>fed</sup> Mai, cynhaliwyd cyfarfod rhwng Brian Hughes, Pippa Waterman, Dave Wilson, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, er mwyn i Brian Hughes esbonio ei waith fel Cyfarwyddwr y Ganolfan Ganolog (yr Hub).
- 4.7 Ar 6<sup>ed</sup> Mehefin, cafwyd cyfarfod â Chadeirydd yr NDA, Stephen Henwood, y Prif Weithredwr, John Clarke, y Prif Swyddog Cyllid, David Batters, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Jon Phillips, a naw swyddog gweithredol a oedd wedi ymweld â Thraws. Roeddent wedi'u plesio'n arw â'r hyn roeddent wedi'i weld a'i glywed ar y safle.
- 4.8 Dywedodd y Cadeirydd fod Idwal Williams wedi mynychu dau gyfarfod yn ei le, ac fe'i croesawodd i ddweud ychydig eiriau.
- 4.9 Nododd Idwal Williams ei fod wedi bod mewn cyfarfodydd yn Llundain ac yn Llandudno. Rodd wedi ymweld â Llundain ar 30<sup>ain</sup> Mai, lle'r oedd cyfarfod â Thîm Gweithredol yr NDA.
- 4.10 Amlinellodd y prif faterion a godwyd: cystadleuaeth yw'r pwnc mawr ar hyn o bryd; mae'r contract mewn perthynas â gwastraff lefel isel yn Drigg wedi dod i ben; mae Cumbria wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cynlluniau i gladdu gwastraff niwclear; mae cyfnod cynhyrchu Wylfa wedi cael ei ymestyn, ac mae safleoedd Bradwell a Thrawsfynydd yn mynd am y Cyflwr Gofal a Chynnal.
- 4.11 Dywedodd fod y cyfarfod wedi bod yn gyfle da i gyfleu'r angen i barhau â gwaith er mwyn cadw swyddi.
- 4.12 O ran y gloddfa genedlaethol, mae'n debygol y bydd Papur Gwyn a chais am dystiolaeth. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal hefyd, gyda'r nod o ddod o hyd i rywle i gladdu gwastraff niwclear.
- 4.13 Roedd cyfarfod wedi'i gynnal ganol Chwefror i drafod storio gwastraff o Wylfa yn Nhraws, ac roedd cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ynys Môn, Wylfa a'r Diwydiant yn bresennol. Fodd bynnag, penderfynwyd na fyddai hyn yn digwydd, a'r gobaith oedd y byddai llefydd eraill yn y DU yn gallu cymryd y gwastraff.
5. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle
- 5.1 Rhoddodd Mr Dave R Wilson, Cyfarwyddwr y Safle, gyflwyniad ynghylch cyrraedd cyflwr Gofal a Chynnal priodol erbyn mis Rhagfyr 2016 am £441 miliwn (neu lai).
- 5.2 O ran diogelwch, roedd 927 diwrnod wedi mynd heibio ers y digwyddiad diwethaf lle'r oedd amser gwaith wedi'i gollu. Ni chafwyd yr un digwyddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hwn yn berfformiad i fod yn falch ohono, ac yn fater sy'n cael ei ystyried yn hollbwysig.



- 5.3 Rhoddwyd amlinelliad o'r amserlen ar gyfer y Rhaglen:  
Gofal a Chynnal Interim: 2016 – 2020  
Gofal a Chynnal: 2026 – 2074
- 5.4 Gan edrych ar ein hamserlen o 81 mis, mae 38 mis wedi mynd heibio ac mae 43 mis ar ôl. Mae'n bwysig ein bod yn cyrraedd y prif gerrig milltir.
- 5.5 Y nod yw arwain a dysgu, gyda gwersi'n cael eu trosglwyddo i eraill a safleoedd eraill yn dod i ymweld â ni ac yn dysgu gennym ni.
- 5.6 Amlinellodd dargedau cynllun gweithredu Trawsfynydd ar gyfer 2013/14:  
FED Ochr Ddeheuol – Cwblhau prif waith sifil – 12/08/2013  
FED Ochr Ddeheuol – Cwblhau gwaith comisiynu gweithredol – 25/03/2014  
FED Ochr Ogleddol – Cwblhau gwaith comisiynu gweithredol – 25/03/2014  
Gwaith Trin Elifiant Gweithredol Symudol – Cwblhau gwaith comisiynu gweithredol – 15/10/2013  
Cwblhau gwaith adfer swp RV3 – 06/11/2013  
Cwblhau gwaith adfer swp yn y brif storfa slwtsh – 03/12/2013  
Mae gwaith strwythuro yn mynd yn ei flaen yn dda, ac mae'r prif dargedau i gyd wedi cael eu cyrraedd.
- 5.7 O ran lleihau cyfaint Gwastraff Lefel Ganolraddol (ILW), mae'r lefelau'n gostwng.
- 5.8 O ran y storfa ILW, mae gwahanol fathau o gynwysyddion a chasgenni'n cael eu cadw yno. Mae 79 o becynnau ILW yn y storfa. Mae 1876 o becynnau wedi cael eu cynhyrchu yn barod, a bydd 2300 yn y storfa yn y pen draw.
- 5.9 Yng nghyswllt Gwastraff Lefel Isel lawn, roedd y safle yn gwneud ei orau i gael gwared â phethau fel asbestos. Aeth y swp cyntaf oddi ar y safle ar 18<sup>fed</sup> Medi 2012 a hyd yn hyn mae 14 llwyth wedi cael ei wneud a 1204 o gasgenni, gan ddod i gyfanswm o 235m<sup>3</sup> o wastraff.
- 5.10 O ran PNV (Ponds North Void), roedd FED wedi cael ei dynnu o'r slwtsh.
- 5.11 Mae llawer o waith wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r tanciau a'r cynwysyddion. Roedd y tîm wedi bod yn gwneud llawer o waith glanhau ac roedd y metelau wedi cael eu hailgylchu a'u gwaredu.
- 5.12 Gan edrych ar Ponds, mae gwaith sgablo angen ei wneud o hyd, ac mae gwaith yn dal i gael ei wneud ar y cymalau, gan ddrilio a chymryd samplau.
- 5.13 Mae abseilwyr wedi gwneud llawer o waith ar yr adeiladau. Mae llawer o sgaffaldiau wedi cael eu gosod, a thipyn o waith atgyfnerthu wedi'i wneud ar y tu mewn hefyd, i baratoi at y cyflwr Gofal a Chynnal.
- 5.14 O ran ansawdd y tir, roedd gweithwyr wedi bod yn drilio ac yn cymryd samplau i gael sail ar gyfer gwaith llunio opsiynau a pharatoi at y cyflwr Gofal a Chynnal.
- 5.15 O ran materion Economaidd-gymdeithasol, dyma'r ffigurau cyflogaeth:
- |                     |     |
|---------------------|-----|
| Cyfanswm Cyflogaeth | 967 |
| Staff               | 209 |
| Asiantaeth/CSW      | 143 |
| Contractwyr         | 615 |

(Nid yw pob contractwr yn gweithio'n llawn amser ar y safle ac mae nifer y contractwyr yn newid wrth i brosiectau gychwyn a dod i ben). Mae'n debygol y bydd y safle'n parhau ar y lefel hon am ychydig fisoedd.

- 5.16 O ran cymorth pontio a chymorth ar gyfer y gweithlu, roedd cyfweiliadau wedi cael eu cynnal â staff ac roeddent wedi cael llythyrau gyda dyddiadau ac ati. Roedd y broses wedi gwneud i ambell unigolyn feddwl am ei ddyfodol a gwneud yn siŵr bod ganddo gynlluniau yn eu lle. Roedd Dave Wilson yn ffyddiog y byddai gan fwy o unigolion gynllun penodol ar gyfer y dyfodol.
- 5.17 Gan edrych ymlaen i'r dyfodol, roedd y perfformiad diogelwch wedi bod yn rhagorol, ac mae'r heriau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys symud i gam gweithredol adfer FED a mewngapsiwleiddio ILW, a sicrhau bod y gweithlu'n parhau i gael cefnogaeth.
- 5.18 I grynhoi, roedd cynllun da ar waith, sy'n fanwl ac yn cael ei ddeall yn dda, mae'r gwaith yn cael ei wneud, mae'r ffrydiau gwastraff wedi'u deall yn dda, rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn barhaus, mae'r gwaith cyswllt cychwynol â'r Ganolfan Ganolog (yr Hub) wedi bod yn dda, mae'r gadwyn gyflenwi hollbwysig yn ei lle ac mae'r perfformiad diogelwch ac amgylcheddol wedi bod yn dda.

5.19 Cwestiynau

- a. Holwyd a oedd unrhyw ganlyniadau yn dilyn y gwaith samplu a monitro o'r Ponds.

Dywedodd Dave Wilson eu bod yn mynd drwy brosesau penodol mewn perthynas â strwythur. Mae un cymal penodol i'w weld mewn cyflwr gwael, ond mae rhannau eraill i bob golwg yn lân. Roeddent yn bwrw ymlaen â'r gwaith yr oedd angen ei wneud.

- b. Oes rhywun yn gwybod faint o ollyngiadau sydd wedi dod o Ponds dros y blynyddoedd, gan ystyried y gollyngiadau yn ystod y 1970au a'r 1980au er enghraifft. Ar raddfa o un i ddeg, pa effaith y byddai gollyngiadau yn ei chael ar dir fferm?

Dywedodd Dave Wilson eu bod yn edrych ar ollyngiadau, a bod y gwaith creu opsiynau yn ymdrin â hynny. Eglurodd fod tyllau turio ar y safle, sy'n golygu bod modd dweud os oes rhywbeth yn symud. Eglurodd Christina Black ymhellach fod 40 twll turio yn weithredol ar y safle, ac y byddai'r rhain yn dangos unrhyw ollyngiadau.

- c. Cyng Meredydd Williams – O ran samplu a monitro, pa mor fawr yw'r ardal dan sylw, ac ai dyma pam nad yw'r NDA yn gallu dweud a fydd y tir hwn ar gael ai peidio.

Eglurodd Dave Wilson, wrth edrych ar y tir sydd ar gael a'r tir a fydd yn dod yn rhydd, ei bod yn anodd dweud.



- d. Cyng Meredydd Williams – Rydych chi'n gwybod faint o dir sydd ei angen arnoch chi, felly mae'r NDA yn gwybod pa dir sydd ar gael ar gyfer y Parth Menter.

Eglurodd Dave Wilson fod gwahanol gamau. Mae tir sydd ei angen yn benodol ar gyfer datgomisiynu. Dywedodd y Cyng Meredydd Williams eto fod y mater hwn wedi bod yn cael ei drafod ers tua 6 mlynedd, a gobeithio y byddai rhywbeth yn cael ei wneud rŵan.

- e. Cyng John Richards - Allwch chi ymhelaethu ar yr hyn a ddywedodd Idwal Williams o ran gofyn i'r Trysorlys am arian?

Eglurodd Dave Wilson y bydd yr NDA yn mynd drwy adolygiadau o wariant eto. Roedd yn ffyddiog bod yr arian yno, ond wrth gwrs all neb ddweud beth sy'n mynd i ddigwydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd llawer o fomentwm, ac roedd y contractau a'r gadwyn gyflenwi yn eu lle. Pwysleisiodd Idwal Williams mai arian ar gyfer cyflymu'r broses ydoedd.

- f. Cyng John Richards – Gan fod gwaith ar falurion Rhodenni Tanwydd (FED) yn dod i ben, pryd fydd y gwaith o dynnu'r FED allan yn dechrau?

Eglurodd Dave Wilson y byddai'r gwaith, yn ddelfrydol, yn dechrau fis Ionawr nesaf, ond ei bod yn debygol y byddai'n nes at fis Mawrth mewn gwirionedd.

- g. Cyng Meredydd Williams – A wnaiff unrhyw lygriad yn Ponds effeithio ar y penderfyniad i ddymchwel yn 2016?

Atebodd Dave Wilson mai'r bwriad wrth gwrs yw chwalu'r adeilad Ponds, ond mae beth i'w wneud â'r darn sydd o dan y ddaear yn destun trafodaeth.

- h. Cyng John Richards – Gan ein bod ar y pwnc Ponds o hyd, faint o'r gwaith sgablo sydd wedi cael ei wneud?

Dywedodd Dave Wilson fod oddeutu 70% o'r gwaith wedi cael ei gwblhau. Mae blaenoriaeth yn cael ei roi i sgablo ar hyn o bryd, ond mae ambell ddarn ar ôl o hyd.

- i. Cyng Tom Ellis – O ran y storfa ddiogel, mae 1700 o gasgenni wedi cael eu rhoi i mewn a bydd 2300 wedi cael eu rhoi yno erbyn y diwedd. Faint o le fydd ar ôl yn y storfa ddiogel erbyn hynny?

Atebodd Dave Wilson na fyddai llawer o le ar ôl, ac yn dilyn trafodaethau ynghylch storio gwastraff o lefydd eraill ac yn y blaen, y teimlad yw na fyddai'n ddelfrydol dod â gwahanol fathau o wastraff o lefydd eraill i'r storfa yn Nhrawsfynydd.

- j. Cyng Tom Ellis – Gan ddod yn ôl i'r pwnc o ostwng y to, oni fyddai'n well gweithio ar ostwng uchder yr adeilad na chanolbwytio ar gynnal a chadw a gwneud gwelliannau?

Eglurodd Dave Wilson eu bod yn gorfod cadw'r adeilad mewn cyflwr da. Esboniodd y rhesymeg sydd wrth wraidd y gwaith i ostwng uchder y to, gan ddweud bod Magnox wedi paratoi cynnig, ac ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau yn Nhrawsfynydd yn 2016, bydd yr arian yn cael ei neilltuo i Sizewell at ddibenion

eraill, gyda'r bwriad o ddychwelyd i ostwng yr uchder yn Nhrawsfynydd yn 2020.

- 5.20 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Elfyn Llwyd AS ddweud gair neu ddau, gan ddiolch iddo am ddod i'r cyfarfod.
- 5.21 Roedd Elfyn Llwyd AS yn falch iawn o glywed yr adroddiad bod gwaith yn mynd rhagddo yn Nhrawsfynydd a bod Traws yn codi i'r gwaith – gwaith sy'n gallu bod yn anodd ac yn beryglus ar adegau. O ran pwynt y Cyng Tom Ellis, mynegodd nad oedd yn hapus am adael y gwaith o ostwng y to yn 2016, beth bynnag yw sefyllfa pawb arall. Mynegodd bod gostwng uchder y to yn un rhan o'r rheswm y gwnaeth y bobl leol gytuno i hyn. Doedd dim sôn am gyfnod segur cyn gwneud hynny. Roedd yn awyddus i'r penderfyniad gael ei ailystyried er mwyn cadw sgiliau ar y safle ac er mwyn yr economi, ac roedd yn teimlo ei bod yn bwysig i'r safle ddangos i'r cyhoedd ei fod yn cadw at ei air.
- 5.22 Mynegodd Dave Wilson eu bod wedi mynd drwy'r broses gynllunio mewn perthynas â gostwng uchder y to. Dywedodd fod ganddynt gynllun i fynd ag ef rhagddo, a'u bod yn gwneud eu gorau i wneud hynny. Fodd bynnag, roedd yn sylweddoli bod y Grŵp Rhanddeiliaid Safle wedi mynegi'n glir eu bod am i hyn gael ei wneud, a bod teimladau wedi cael eu cyfleu'n glir iawn.
- 5.23 Eglurodd David Edwards, Rheolwr Arweiniol Rhaglen Magnox, pan oedd yr adolygiad wedi cael ei gynnal, roedd y broses ddatgomisiynu wedi mynd yn ôl 5 mlynedd. Y bwriad oedd defnyddio'r £90 miliwn i ddelio â'r gwaith o leihau gwastraff peryglus mewn safleoedd eraill. Mae arian yn gyfyngedig, ac mae sialensiau'n codi o hyd. Roedd yr NDA wedi clywed y neges yn glir, a byddai'r mater yn cael sylw. Nododd y byddai cyfleoedd o bosibl, ond y byddai sialensiau hefyd, ac nad oedd yn bosibl dweud yn bendant beth fyddai'n digwydd mewn safleoedd eraill.
- 5.24 Diolchodd Elfyn Llwyd AS am yr atebion. Nododd y Cadeirydd hefyd efallai y byddai'r sefyllfa wedi newid erbyn yr adeg yma'r flwyddyn nesaf, a'i bod yn bwysig peidio â digalonni, a gwneud dipyn o waith llobio.
6. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng
- 6.1 Rhoddodd Robin Phillips adroddiad ar yr eitemau perthnasol ar agenda'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng a gynhaliwyd ar 12<sup>fed</sup> Mawrth 2013.
- 6.2 O ran Trefniadau Argyfwng y Safle, ni welwyd unrhyw newidiadau sylweddol yn nhrefniadau argyfwng y Safle ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle, ac nid oedd Trefniadau Argyfwng y Safle wedi cael eu rhoi ar waith ers cyfarfod diwethaf y Grŵp chwaith.
- 6.3 Y prif newyddion yw bod Magnox, fel rhan o'r gwaith cynllunio i baratoi'r safle ar gyfer gofal a chynnal, wedi penderfynu tynnu Trawsfynydd yn ôl fel safle ymateb ar gyfer RADSAFE a NAIR o ddiwedd 2013 ymlaen.
- 6.4 O ran Staff y Cynllun Argyfwng, roedd tri gyrrwr arolygu oddi-ar-y-safle wedi cael eu hyfforddi ac wedi ymuno â'r cynllun ym mis Chwefror yn dilyn y broses recriwtio fewnol.



- 6.5 O ran hyfforddiant ac ymarferion, cychwynnodd y rhaglen flynyddol o ymarferion ym mis Hydref 2012, ac mae'n dal i fynd. Byddai'r ymarfer arddangos i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn cael ei gynnal ar 26<sup>ain</sup> Mehefin 2013. Caglwyr holl weithwyr y safle ynghyd yn yr ymarfer argyfwng ym mis Hydref, sy'n cadarnhau'r gallu i gynnull y nifer gynyddol o bobl ar y safle yn effeithiol.
- 6.6 Mae nifer y gweithwyr yn y cynllun yn dal yn llawn, ond gan edrych i'r dyfodol, bydd y cynllun yn cyfyngu'n raddol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae popeth yn aros fel y mae, heb unrhyw newidiadau.
7. Adroddiad gan Arolygwr Gosodiadau Niwclear y Safle
- 7.1 Eglurodd Daniel Gregory fod Chris Kemp bellach yn gweithio ar ddau safle yn dilyn aildrefnu, a'i fod ef erbyn hyn yn ysgwyddo'i ddyletswyddau.
- 7.2 Roedd y wybodaeth angenrheidiol wedi cael ei darparu yn y pecynnau gwybodaeth.
8. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd
- 8.1 Nododd y Cadeirydd fod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru bellach wedi uno â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i ffurfio un corff, sef Cyfoeth Naturiol Cymru. Eglurodd nad oedd y corff wedi cysylltu, ond roedd yn credu ei fod yn dal i ddod i ymweld â'r safle. Mynegodd y Cadeirydd fod y Grŵp yn awyddus i gynrychiolydd fod yn bresennol gan fod yr Asiantaeth yn gofalu am fuddiannau wedi'r cyfan.
9. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
- 9.1 Roedd Jonathan Jenkin wedi ymddiheuro na fyddai'n bresennol, a rhoddwyd yr adroddiad gan David Edwards.
- 9.2 Roedd dyddiad cau yr ymgynghoriad wedi cael ei ymestyn i randdeiliaid rannu eu barn ynghylch yr opsiynau datblygu ar gyfer storio ILW a thrin FED. Mae dau Bapur Strategaeth NDA wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar – mae un yn edrych ar niferoedd a lleoliadau cyfleusterau storio FED ar gyfer safleoedd Magnox a safleoedd presennol EDF Energy yng Nghymru a Lloegr, ac mae'r ail yn canolbwyntio ar gyfleusterau trin FED ar safleoedd Magnox. Mae'r ddau bapur yn amlinellu nifer fach o opsiynau sy'n cyd-fynd â Strategaeth yr NDA ar gyfer 2011, sy'n dweud y dylid ystyried dulliau canolog ac aml-ddefnydd pan fo modd. Yn ogystal â bod yn rhan o Strategaeth yr NDA, ceir cyfleoedd i wahanu gwastraff i leihau gwastraff ILW sydd angen mynd i flychau melyn ac i storffeydd. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae storfa Traws yn wahanol, ond fel opsiynau credadwy, nid yw Traws a Wylfa wedi'u cynnwys yn y papur strategaeth.
- 9.3 O ran cystadleuaeth, roedd pedwar consortiwm yn mynd drwy'r broses gynnig ar hyn o bryd, ac roeddent wrthi'n ymweld â safleoedd ac yn y blaen. Mae'n bwysig bod y cynigwyr yn clywed ein barn ac yn gweld y bobl a'r ardaloedd sy'n gysylltiedig. Wedi hyn, bydd y cynigion yn cael eu hasesu a'u gwerthuso.
- 9.4 Mae Digwyddiad y Gadwyn Gyflenwi wedi symud i leoliad mwy ar ôl llwyddiant digwyddiad y llynedd yn Bolton, a bydd yn cael ei gynnal yn EventCity ym Manceinion ar 13<sup>eg</sup> Tachwedd. Fel bob amser, bydd yn gyfle i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd.





- 9.5 Mae'r NDA wedi cyhoeddi ei Gynllun Busnes ar gyfer 2013-16 sy'n amlinellu'r blaenoriaethau cyflenwi am y cyfnod. Bydd cyfanswm o £3.2 biliwn yn cael ei wario ar lanhau'r etifeddiaeth niwclear yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, gyda 55% yn cael ei ddyrannu i leihau peryglon yn Sellafield, sef y brif flaenoriaeth.
- 9.6 Mae tymor pum mlynedd arall wedi'i ddyfarnu i gonsortiw m rhyngwladol UK Nuclear Waste Management i reoli LLW Repository Ltd. Mae hyn yn dilyn ei lwyddiant wrth weithredu a chyflawni'r prif ymrwymadau ers i'r NDA ddyfarnu'r contract yn 2008.
- 9.7 Pwysleisiwyd hefyd fod arian yn cael ei ddarparu ar gyfer syniadau i fwrw ymlaen â'r broses ddatgomisiynu.
- 9.8 Holodd Rory Trappe beth oedd yr arian ar gyfer datgomisiynu a datblygiadau pellach yn ei olygu, ac atebodd David Edwards ei fod yn ymwneud ag edrych ar syniadau pobl, gan gofio y bydd y storfeydd diogel yn cael eu gadael am ychydig flynyddoedd, ac y byddai unrhyw syniadau ar gyfer datblygu yn cael eu croesawu.
10. Gofal a Chynnal yn Safle Trawsfynydd
- 10.1 Cyflwynodd Brian Hughes ei hun fel Cyfarwyddwr y Ganolfan Ganolog (yr Hub), a dweud ei fod wedi dod i'r cyfarfod i roi syniad i'r grŵp sut bydd y safle'n edrych yn y dyfodol a sut bydd yn cael ei reoli. Roedd tîm y safle yn edrych ar elfennau ffisegol gyda'r nod o gyrraedd pwynt lle byddai modd gweld sut bydd pethau'n edrych yn y dyfodol.
- 10.2 Y nod yw cael 10 safle i gyflwr diogelwch goddefol cymaint ag y bo modd. 'Model bocs' yw'r model sydd dan sylw, gydag adeiladau'n cael eu rheoli gyda ffensys o'u hamgylch. Byddai'r adeiladau hynny yn cynnwys storfeydd diogel ac unrhyw adeiladau ychwanegol, er enghraifft Ponds.
- 10.3 Pwysleisiodd y byddai pob safle yn saff ac yn ddiogel ac y byddent yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio.
- 10.4 Eglurodd beth fyddai'n digwydd ar y safle, gan gynnwys: Rheoli o bell drwy swyddfa fach oddi ar y safle; byddai cyn lleied o bobl ag y bo modd ar y safle, gyda chynlluniau cynnal a chadw wedi'u cynllunio (bob blwyddyn, bob pum mlynedd, ad hoc ac ati); byddai swyddogion yn dychwelyd i'r safle bob pum mlynedd i gynnal profion; byddai gwaith cynnal a chadw yn cael sylw bob blwyddyn (yn dilyn tywydd garw ac yn y blaen). Nid oedd yr union fanylion wedi'u cadarnhau eto, ac roedd llawer o waith rhyngweithio angen ei wneud gyda'r rheoleiddwyr.
- 10.5 Trawsfynydd fydd yr ail safle i fynd drwy'r broses (yn 2016). Bradwell fydd y cyntaf yn 2015, a Chapplecross fydd yr olaf yn 2028.
- 10.6 Eglurodd y byddai Tim yn gweithio yn y Ganolfan Ganolog, gan gynnwys Cyfarwyddwr (ef ei hun), a staff yr Amgylchedd/Gwastraff, Seilwaith, Caffael a Chyfathrebu, a dywedodd y byddai pobl leol yn cael eu cyflogi hefyd.
- 10.7 Pwysleisiodd y Cadeirydd mai'r dechrau oedd hyn a bod llawer o waith angen ei wneud i sicrhau bod popeth yn ddiogel. Croesawodd unrhyw gwestiynau.

## 10.8 Cwestiynau

- a. Cyng John Richards – Gan edrych ar gyfrifoldeb, does neb i weld yn atebol.

Atebodd Brian Hughes mai ef oedd yr unigolyn atebol. Eglurodd fod yr NDA yno, a bod yr atebolrwydd yn aros fel y mae heddiw. Pwysleisiodd mai hon oedd y strategaeth ar gyfer rheoli. Atebodd y Cyng John Richards, o edrych yn gyffredinol, fod contractwyr i bob golwg yn atebol hefyd.

- b. Mae hwn yn amlwg yn drefniant hyd braich. Oes yna unrhyw drefniadau ar gyfer rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod hwn?

Pwysleisiodd Brian Hughes fod angen i drafodaethau ar lefel leol fod yn agored – a bod hynny'n gyfrifoldeb moesol – ac nid oeddent wedi anghofio hynny.

- c. Rory Trappe – Rydych chi wedi sôn am gwmnïau 'lleol' yn cael eu defnyddio. Sut ydych chi'n diffinio 'lleol'?

Er nad oedd yn gwybod yr union ateb, dywedodd Brian Hughes fod gan y safle amser ymateb penodol. Wrth ystyried diogelwch, mae hyn yn golygu'r radiws. Mae'n rhaid i rywun fod o fewn radiws penodol – mae angen i rywun sy'n gofalu am allwedd er enghraifft fod o fewn pellter arbennig. O ran gwaith cynnal a chadw, er enghraifft torri glaswellt, mae'n gwneud synnwyr cadw pethau felly'n lleol, a dyna'r ffordd o feddwl yn gyffredinol.

- d. John Richards – Rydym ni wedi cael y trafodaethau hyn o'r blaen, y bydd pob larwm yn mynd i swyddfa ganolog, ac y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn ymateb ac yn dod i'r safle.

Ar ôl cysylltu â'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ynglŷn â monitro, mae hyn wedi cael ei gadarnhau fel sefyllfa reoleiddiol dderbyniol. Byddai ymateb o'r fath yn dderbyniol – mae'n rhaid i ni ddibynnu ar yr Heddlu i gael pobl oddi ar y safle ac ati.

- e. Cyng Caerwyn Roberts – y pryder sydd gen i yw bod yr amserlen wedi mynd yn ôl. Mae Traws yn unigryw gan mai dyma'r unig atomfa o blith 10 sydd wedi'i lleoli mewn Parc Cenedlaethol, gan ddefnyddio dŵr o'r llyn i oeri'r adweithyddion. Mae'r safle hefyd yng nghefn gwlad. Pwrpas cyntaf y Parc Cenedlaethol, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1996, yw gwarchod a gwella'r amgylchedd. Dylid rhoi ystyriaeth i dwristiaeth hefyd. Dylid manteisio ar hyn i ddod â'r broses ymlaen i'r amserlen gychwynnol, neu bydd diffyg ymddiriedaeth.

- 10.9 Nododd y Cadeirydd fod trafodaethau clos ar y gweill ar hyn o bryd. Erbyn heddiw, mae teimladau newydd yn cael eu rhoi gerbron. Dywedodd fod teimlad yn gyffredinol o fewn y byd niwclear y byddai modd bwrw ymlaen. Ar un adeg, roedd y darlun ar gyfer Wylfa yn niwlog iawn, ond erbyn heddiw mae'n debygol y bydd Wylfa yn parhau. Mynegodd ei bod yn rhaid gwthio ymlaen i geisio sicrhau bod y gwaith yn cael ei orffen. Rhaid peidio â thorri calon, mae pethau yn newid.

- 10.10 Gofynnodd hefyd i Brian gadw mewn cysylltiad â'r grŵp er mwyn iddo gael y wybodaeth ddiweddaraf.

## 11. Diweddariad economaidd-gymdeithasol

- 11.1 Rhoddodd Michelle Humphreys y wybodaeth ddiweddaraf am faterion economaidd-gymdeithasol.
- 11.2 Pwysleisiodd mai pwrpas y cynllun economaidd-gymdeithasol oedd bod yn gymydog da.
- 11.3 Roedd 31 o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo yn ardal Trawsfynydd dros y flwyddyn ddiwethaf, a'r rheini'n dod i gyfanswm o £464.388 gyda'i gilydd. Roedd hyn allan o gyfanswm o £822,748 o fuddsoddiad mewn cymunedau lleol yn ardaloedd Safleoedd eraill Magnox ar draws y DU.
- 11.4 Mae hyn yn profi bod y parth ar y we wedi bod yn llwyddiannus ac wedi dileu unrhyw amheuan neu bryderon yn ei gylch.
- 11.5 Amlinellodd Michelle Humphreys rai o'r prosiectau y mae'r cynllun wedi'u helpu yn yr ardal dros y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys prosiectau bach fel prosiect leir yn Clwcian Ysgol y Gorlan, Tremadog, a gafodd £1000, prosiectau mawr fel Egin Cegin ym Motwnnog, a gafodd £9999, a chyfraniadau mwy byth fel £360,000 i Goleg Meirion Dwyfor ar gyfer y Ganolfan Sgiliau Peirianeg ac Amgylchedd Adeiledig ar Stad Ddiwydiannol Marian Mawr yn Nolgellau. Atgoffodd y grŵp hefyd fod arian wedi cael ei roi i Eisteddfod yr Urdd y llynedd yng Nglynllifon, ac i Bartneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru.

## 12. Unrhyw fater arall

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y Parth Menter gan Nia Swann Bowden

- 12.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Nia Swann Bowden i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Parth Menter.
- 12.2 Roedd Nia Swann Bowden eisiau pwysleisio ei bod hi a'r tîm hefyd yn lobio'n frwd i fwrw ymlaen â'r broses ddatgomiynu, nid yn unig oherwydd yr achos busnes, ond oherwydd yr ochr gymdeithasol hefyd, ac er mwyn cadw gwaith yn yr ardal.
- 12.3 Eglurodd fod gwaith yn mynd rhagddo ar y llyn, gan edrych ar waith hamdden ac ati.
- 12.4 Roedd gwaith yn cael ei wneud hefyd i edrych ar ddatblygiadau ar gyfer y dyfodol, gan roi ystyriaeth i nodweddion Traws a pha ddiwydiannau sy'n debygol o gynnig cyfleoedd, gan y bydd hyn yn rhoi gwell syniad sut i farchnata'r parth. Beth bynnag sy'n digwydd ar y safle, bydd y Parth Menter yn rhoi'r cyfle i fynd at Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.
- 12.5 Pwysleisiodd y byddai hi'n fwy na pharod i gynnwys unrhyw syniadau neu allbwn sydd gan y grŵp yn y drafodaeth.
- 12.6 Cwestiynau
  - a. Cyng Meredydd Williams – Ydych chi'n gwybod beth yw lleoliad y tir sydd ar gael?

Eglurodd Nia Swann Bowden unwaith y byddent yn gwybod beth sydd ei angen bydd modd gweld wedyn pa dir sydd ar gael.



- b. Cyng Meredydd Williams – Mae Dave Wilson wedi dweud beth sydd ei angen, ac mae'r NDA yn gwybod hefyd, ydych chi'n gwybod beth sydd ar gael rŵan?

Atebodd Nia Swann Bowden eu bod wedi cymryd yr amser yr oedd ei angen, a bod angen cofio ein bod yn gofyn am faliynau o bunnoedd o fuddsoddiad. Roedd hi'n derbyn ei bod yn edrych fel petai hyn oll yn digwydd yn araf, ond pwysleisiodd fod hyn yn golygu llawer o waith.

- c. Cyng Meredydd Williams – nos Sadwrn, dywedodd Dafydd Iwan ar y radio fod sibrydion ynglŷn â Thraws a gwastraff, a bod pobl yn troi i ffwrdd. Ydy hyn wedi codi i chi?

Pwysleisiodd Nia Swann Bowden nad oedden nhw wedi dod ar draws hyn, ac nad oedd dim byd y tu ôl i'r si.

- d. Holodd y Cyng Meredydd Williams a fyddai modd gweld cofnodion eu cyfarfodydd. Nododd hefyd ei siom nad oedd cynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd.

Nid oedd Nia Swann Bowden yn siŵr a oedd y cofnodion yn gyfrinachol ai peidio. Eglurodd fod pob aelod yn cael ei wahodd gan y Gweinidog, ac mai byrddau o arbenigwyr ydyn nhw i fod. Nid oedd hyn o fewn ei rheolaeth. Dywedodd y Cadeirydd hefyd fod y penodiadau wedi'u gwneud ar gyfer y Bwrdd, a dim ond y rhai wedi'u henwebu sy'n cael bod yn aelodau. Mynegodd hefyd unwaith y bydd y pethau terfynol yn eu lle y bydd y gynrychiolaeth yn newid.

- e. Cyng Meredydd Williams – Am faint fydd y Parth Menter yn rhedeg?

Dywedodd Nia Swann Bowden y bydd yn bodoli tan 2015, ond ni fydd gwaith yn dod i ben bryd hynny. Erbyn 2015, bydd y casgliadau a'r penderfyniadau wedi cael eu gwneud, a bydd y bwrdd yn dod i ben bryd hynny.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Horizon Nuclear Power a chynlluniau ar gyfer atomfa newydd ar safle Wylfa – Richard Foxhall, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid

- 12.7 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Richard Foxhall ddod i sôn am y newyddion diweddaraf o Wylfa.
- 12.8 Dywedodd Richard Foxhall nad oedd Horizon Nuclear Power mewn sefyllfa dda iawn yr adeg yma'r llynedd, ond roedd y chwe mis diwethaf wedi bod yn gyfnod cyffrous iawn.
- 12.9 Atgoffodd y Grŵp fod Horizon wedi cael ei ffurfio ym mis Ionawr 2009 fel menter ar y cyd rhwng E.ON UK ac RWE npower. Ar 29<sup>ain</sup> Mawrth 2012, cyhoeddodd E.ON ac RWE eu bwriad i adael rhaglen niwclear y DU, a rhoddwyd Horizon ar werth. Ar 30<sup>ain</sup> Hydref 2012 cyhoeddodd Hitachi eu bod wedi cytuno i brynu Horizon, ac ar 23<sup>ain</sup> Tachwedd, trosglwyddwyd yr arian yn uniongyrchol gan Hitachi i sicrhau'r pryniant.



- 12.10 Eglurodd Richard Foxhall dechnoleg ABWR yn gryno. Bydd yr Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch (ABWR) yn cael ei ddefnyddio yn Wylfa ac yn Oldbury. Hwn yw'r unig adweithydd uwch sy'n weithredol yn unrhyw le yn y byd. Mae pedair uned weithredol ABWR wedi cael eu cwblhau yn unol â'r amser a'r gost, gyda'r uned ddiweddaraf yn cael ei chwblhau mewn 37 mis. Mae ABWR eisoes wedi'i drwyddedu yn Japan, Taiwan ac UDA. Mae Hitachi-GE Nuclear Energy (HGNE) yn bwriadu cyflwyno ABWR ar gyfer cymeradwyaeth y broses Asesiad Dyluniad Generig, a bydd gweithgareddau datblygu a chydsynio cynnar yn cyd-redeg â hyn.
- 12.11 Horizon fydd datblygwr y safle, y perchennog a'r gweithredwr yn y dyfodol, a hynny ar gyfer Wylfa ac Oldbury. Hitachi yw'r unig gyfranddaliwr. HGNE fydd yn darparu'r dechnoleg ac yn arwain y tîm cyflawni. Mae Hitachi wedi dweud yn glir i bydd angen partneriaid ar gyfer y gwaith adeiladu, ac mae Memorandwm Cymdeithasu wedi cael ei lofnodi gyda Rolls Royce a Babcock International Group i roi cymorth ym maes peirianeg.
- 12.12 Esboniodd Richard Foxhall fod y dull o adeiladu yn wahanol i'r hyn a geir yn Ewrop ac nad oedd yn gallu rhoi amserlen fanwl. Bydd yn cymryd dipyn o amser i gael trefn ar y gadwyn gyflenwi. O ran strategaeth a rhaglen, y cynnig yw datblygu dau neu dri adweithydd ar y safle, a bydd disgwyl i'r uned gyntaf ddod yn weithredol yn ystod hanner cyntaf blynnyddoedd 2020.
- 12.13 Dangosodd Richard Foxhall amlinelliad o sut bydd y safle'n edrych o bosibl gyda thri adweithydd. Pwysleisiodd fod llawer o waith angen ei wneud, yn enwedig o ran ffyrdd a thraffig. Bydd yn rhaid gwneud gwaith ar y ffordd rhwng y Fali a Chemaes, a bydd angen gwneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau parcio a theithio i weithwyr. Bydd angen edrych ar lif traffig hefyd, ee bydd pobl yn cael amser penodol i ddod ar y safle. Bydd angen Canolfan Ymwelwyr hefyd.
- 12.14 Mae'r amserlen ddrafft ar y wefan, ond yn gyffredinol, disgwylir y bydd cam cyntaf yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn 2014, gyda'r gobaith y ceir trwydded safle yn 2018 a chaniatâd i ddechrau adeiladu yn 2019. Fodd bynnag gall sawl ffactor effeithio ar yr amserlen hon.
- 12.15 Mae Horizon yn gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi i weld beth fydd y cwmpas ar gyfer y gwaith. Roedd y Digwyddiad cyntaf ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi wedi cael ei gynnal yn Llandudno ac roedd yn ddigwyddiad mawr. Nododd fod diogelwch a'r amgylchedd yn bwysig tu hwnt, a bod angen i gyflenwyr fod yn gystadleuol a gallu bodloni amserlenni. Bydd angen buddsoddi mewn sgiliau hefyd. Mae Horizon bob amser yn ymateb yn gadarnhaol i geisiadau gan y sector addysg, ac mae'n dal i weithio'n rhagweithiol â Choleg Menai a Phrifysgol Bangor. Mae strategaeth ymgysylltu ag addysg ffurfiol yn cael ei datblygu.
- 12.16 Diolchodd y Cadeirydd i Richard Foxhall gan ddweud ei fod yn falch iawn bod y datblygiad yn mynd yn ei flaen.

#### Cystadleuaeth

- 12.17 Ac yntau wedi croesawu Alan Staniforth o UK Nuclear Restoration (Partneriaeth AMEC/Atkins) fel arsyllwr ar ddechrau'r cyfarfod, mynegodd y Cadeirydd y byddai wedi bod yn braf gweld y pedwar cwmni yn y cyfarfod gyda'i gilydd. Diolchodd Alan Staniforth i'r Cadeirydd am ei gydnabyddiaeth. Dywedodd ei bod yn bwysig iawn cael blas ar deimladau lleol, a diolchodd iddo am adael iddo ddod i'r cyfarfod.

13. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau, a diolchodd i Ian Edwards am ei gymorth dros y misoedd rhwng cyfarfodydd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 2<sup>il</sup> o Ragfyr 2013.

DRAFT